# Nodyn cyfarfod

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol** | | | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12 Awst 2019 | Amser: | 10.00 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |
| **Yn bresennol:** | Bob Vaughan (Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd)<br>Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)<br>Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)<br>Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)<br>Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)<br>Ceri Davies (Undeb Amaethwyr Cymru)<br>Steven Bradley (Dŵr Cymru)<br>Jamie McCoy (AHDB) (eitemau 1 i 8)<br>Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)<br>Sara Jenkins (Menter a Busnes)<br>Arfon Williams (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar)<br>James Ruggeri (Hybu Cig Cymru)<br>Nichola Salter (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Geri Mills (Cyfoeth Naturiol Cymru) | | | | |
| **Trwy Skype:** | Lorna Davis (NFU Cymru) (eitemau 1 i 4) | | | | |
| **Ymddiheuriadau:** | Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd)<br>Liz Franks (Hafren Dyfrdwy)<br>Ryan Davies (Llywodraeth Cymru)<br>Meinir Wigley (Cyfoeth Naturiol Cymru) | | | | |

| **Rhif yr eitem:** | **Eitem** |
|---|---|
| **1.** | **Cyrraedd a the/coffi** |
| **2.** | **Croeso ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd Bob Vaughan bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau fel y'u cyflwynwyd. |

## 3. Y diweddaraf ar y dull gwirfoddol o reoli maethynnau *(Lorna Davis, NFU Cymru)*

Ymunodd Lorna Davies â'r cyfarfod trwy Skype er mwyn rhoi'r diweddaraf ar gyfathrebu a ffocws y prosiect wrth symud ymlaen.

Cynhaliodd y grŵp gorchwyl a gorffen ansawdd dŵr weithdy ar 20 Mai 2019 a ganolbwyntiodd ar ddiffinio canlyniadau a'r pethau y gellir eu cyflawni. Roedd y gweithdy wedi datblygu dealltwriaeth ar y cyd a gwerthusiad o risgiau.

Mae prosiect y dull gwirfoddol yn parhau i annog rheolwyr tir i gymryd cyfrifoldeb dros effaith eu gweithgareddau ac i fonitro, rheoli ac adrodd ar eu gweithgareddau. Mae'r dull tystiolaeth yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau sicrwydd a chydnabyddiaeth a enillir. Gwnaed gwaith ymgysylltu sylweddol yn ystod y misoedd diweddar mewn sioeau amaethyddol ledled Cymru, ac mae Penfro, Ynys Môn, Dinbych, y Fflint a Brynbuga ar y gweill yn ystod y misoedd nesaf.

Caiff y digwyddiadau ymgysylltu eu hybu gan fodel sy'n rhoi cyfle i bobl ystyried risg ac ansawdd dŵr wrth ystyried manteision a chyfleoedd ar eu ffermydd eu hunain.

Esboniodd Lorna fod gwaith yn dechrau ar ddrafftio safon dŵr yn dilyn digwyddiad a gynhaliwyd gan yr NFU yn y Sioe Frenhinol Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cefnogwyd y digwyddiad gan Zoe Henderson (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tim Render (Llywodraeth Cymru) a Paul Williams, sy'n ffermwr o ogledd Cymru. Cyhoeddir datganiad i'r wasg cyn bo hir.

O ran casglu data, esboniodd Lorna y rhoddwyd gwybodaeth iddi ynghylch cynllun gwarchod dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru a roddodd becynnau arbrofi dŵr i ffermwyr. Caiff canlyniadau'r arbrawf eu bwydo i mewn i raglen gwyddoniaeth dinasyddion. Cafodd Lorna drafodaethau â'r rhaglen ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae gwaith ymgysylltu ynghylch safonau gwarant ffermydd, FWAG a FWAL yn parhau.

Nododd Creighton Harvey drafodaeth a ddigwyddodd rhyngddo ef a Lorna yn ystod Sioe Frenhinol Cymru. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar angen i'r rheoleiddiwr, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, esbonio opsiynau i ffermwyr o ran camau gorfodi ac adrodd. Teimlwyd y gellid lleddfu'r ofn hunanadrodd pe câi hyn ei esbonio i'r diwydiant, a byddai hefyd yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu dull cyson o weithio ledled Cymru.

Cadarnhaodd Nichola Salter y byddai'n gweithio gyda'r tîm gwelliant parhaus o fewn ei rôl newydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu a datblygu cysondeb ar gyfer gwaith gorfodi rheoliadol ledled Cymru.

Caiff hyn ei ddatblygu'n gyflym a'i adrodd yn ôl i gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch ymgysylltu â phob ffermwr yng Nghymru, cadarnhaodd Lorna fod y prosiect yn estyn allan ledled Cymru trwy aelodaeth o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr / Undeb Amaethwyr Cymru a chyfleoedd am wybodaeth leol. Cadarnhaodd Lorna fod yr holl adborth a gafwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu yn cael ei gofnodi, gan gynnwys rhestr o ffermwyr sydd wedi mynegi diddordeb mewn arbrofi ansawdd dŵr ac sydd wedi cynnig teithiau cerdded o gwmpas eu fferm.

***PG 1 Awst: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cyhoeddi'r papur a ysgrifennwyd ar ran y Fforwm Rheoli Tir, a gyflwynwyd yng nghyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mai 2019, i'w rannu â'r is-grŵp er gwybodaeth (Bob Vaughan / Marc Williams).***

***PG 2 Awst: Trafodaeth i'w chynnal ar sut y gellir defnyddio'r model ansawdd dŵr yn y sioeau teithiol ffermio cynaliadwy a gynhelir gan Menter a Busnes (Sara Jenkins / Lorna Davies).***

## 4. Y diweddaraf ar y rheoliadau amaethyddol *(Andrew Chambers / Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru)*

Cadarnhaodd Andrew Chambers y cynhaliwyd cyfarfod ar 16 Gorffennaf i drafod yr asesiad o'r effaith reoleiddiol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, gan nodi pryderon ar y drafft a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau a phryderon i'r Gweinidog eu hystyried yw 10 Medi.

***PG3 Awst: Cyfeiriad e-bost ar gyfer adborth i'w ddosbarthu i'r grŵp (Marc Williams).***
SLMEnquiries@llyw.cymru neu SLMEnquiries@gov.wales

***PG4 Awst: Dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp i'w bennu cyn dyddiad cau y 10 Medi a'i gyhoeddi i aelodau'r grŵp(Andrew Chambers).***

## 5. Holiadur gwerthoedd sy'n cael eu rhannu a'u herio *(Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Cadarnhaodd Bob Vaughan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cynnal prosiect ymchwil trwy gontractwyr a cheisiodd gydweithrediad y grŵp.

***PG5 Awst: Gwybodaeth ar y prosiect a llwybrau ymgysylltu i'w rhannu â'r grŵp i'w rhaeadru'n ehangach (Bob Vaughan / Marc Williams).***

## 6. Problemau cynllunio – trafod a datblygu cynllun i ddeall y problemau

**a sut i fynd i'r afael â nhw gydag awdurdodau lleol *(Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin / pawb)***

Cyflwynodd Creighton Harvey y ddogfen grynodeb a ddosbarthwyd i aelodau'r fforwm cyn y cyfarfod.

Cadarnhaodd Rachel Lewis-Davies y cynhaliwyd cyfarfod o'r Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys ar 7 Awst, pan gytunwyd i ddatblygu protocol er mwyn sicrhau'r gwaith o ddatblygu cydlyniant rhwng awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Heriwyd y gweithgor gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) ar gyfer amaethyddiaeth ddwys. Nodwyd bod yr amserlen ar gyfer datblygu'r TAN newydd yn heriol. Yn ogystal â hynny, cadarnhaodd Rachel fod nifer yr awdurdodau lleol a oedd yn bresennol yn isel.

Daeth y cadeirydd â'r drafodaeth i derfyn gydag argymhelliad, a gytunwyd, y dylai'r fforwm ysgrifennu at y Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys i godi'r pryderon a nodwyd yn y papur a gyflwynwyd. Diben y llythyr oedd tynnu sylw at angen i bob adran gynllunio mewn awdurdodau lleol ymwneud â'r fforwm ac i ddatblygu proses y ceisiadau cynllunio er mwyn cydnabod yr heriau yn sgil y gofynion rheoli slyri (mis Ionawr 2020), gan greu system gynllunio sy'n galluogi.

***PG6 Awst: Fforwm i ddarparu adborth. Bydd y cadeirydd yn ysgrifennu at gadeirydd y Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys, gan nodi'r adborth a godwyd gan aelodau'r fforwm a nodi'r pryderon a godwyd yn y papur a gyflwynwyd (pawb/cadeirydd).***

***PG7 Awst: Bydd aelodau fforwm Cyfoeth Naturiol Cymru'n cysylltu â Jackie Walters, cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn y cyfarfod ar 7 Awst er mwyn cynnig cymorth polisi ac ymgysylltiad(Nichola Salter, (Cyfoeth Naturiol Cymru).***

## 7. Heriau o ran arloesedd *(Bob Vaughan / Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Yn dilyn y sesiwn arloesedd a arweiniwyd gan Gareth Browning (Llywodraeth Cymru), roedd Bob Vaughan a Marc Williams wedi datblygu rhestr ddechreuol o 16 o heriau, gan awgrymu y dylai'r grŵp ddethol hyd at dair her. Yna, gellid cyflwyno'r heriau hyn i Lywodraeth Cymru er mwyn ceisio cyllid i gontractwyr i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn ystyried a datblygu ymatebion i'r heriau hyn.

***PG8 Awst: Datblygu briff esboniadol i'w rannu ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr / Undeb Amaethwyr Cymru i geisio rhestr o heriau (Bob Vaughan).***

***PG9 Awst: Bydd y grŵp yn ystyried heriau ac yn darparu adborth i'r fforwm (pawb).***

***PG10 Awst: Trefnu cyfarfod pellach er mwyn trafod yr heriau a nodwyd a chadarnhau'r camau nesaf o ran ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru).***

## 8. Y diweddaraf ar y prosiect llaeth (*Nichola Salter, Cyfoeth Naturiol Cymru*)

Cadarnhaodd Nicola ei bod yn darparu cymorth dros yr haf yn lle Matt Lowe, sydd ar wyliau ar hyn o bryd.

Mae'r swyddogion llaeth wedi cynnal 400 a mwy o ymweliadau â ffermydd llaeth ac mae ysgrifennu adroddiadau'n flaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen. Bydd y gwaith o lanlwytho'r wybodaeth i'r gronfa ddata'n cael ei oedi nes bod yr adroddiadau sy'n weddill wedi'u cwblhau a'u hanfon at y tirfeddianwyr. Nodwyd bod y broses ddiweddar o ad-drefnu'r staff, o dan brosiect Cynllunio'r Sefydliad, wedi peri heriau o ran adnoddau yn y tîm. Disgwylir i'r broses o recriwtio rheolwr y prosiect ddod i derfyn yn fuan a chynhelir cyfweliadau ar gyfer y pedwar swyddog llaeth newydd ym mis Medi. Ar hyn o bryd, ariennir y prosiect tan 20 Mehefin 2020.

Mae data wrthi'n cael ei gasglu a bydd Sarah Hetherington yn ymgysylltu ag ystadegydd ar ôl iddi ddychwelyd o'i gwyliau er mwyn sicrhau ansawdd y data cyn ei gyhoeddi i'r grŵp.

Cadarnhaodd Marc Williams mai un o gamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol oedd datblygu cylchlythyr ac awgrymwyd y gellid cynnwys y prosiect llaeth ynddo.

***PG 11 Awst: Rhannu'r data â'r grŵp cyn y dyddiad cau ar 10 Medi ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Gweinidog (Bob Vaughan).***

***PG 12 Awst: Paratoi nodyn briffio ar y prosiect ffermydd llaeth ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru i'w rannu â'r grŵp (Marc Williams).***

***PG 13 Awst: Rhannu cylchlythyr drafft â'r grŵp ar gyfer sylwadau cyn ei gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang o fewn y diwydiant cyn gynted â phosibl (Marc Williams).***

## 9. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol *(Bob Vaughan / Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Cadarnhaodd Marc Williams fod Nicola Taylor, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi paratoi briff ysgrifenedig i'r grŵp. Disgwylir cyhoeddi fersiwn dros dro o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2 ym mis Rhagfyr 2019. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn dymuno gwella'r cydlyniant â rhanddeiliaid ar gyfer yr ail adroddiad a bydd yn trefnu gweminarau.
Gofynnwyd i'r grŵp ystyried meysydd canlynol y bwlch mewn tystiolaeth:

1. Ffermdir caeedig
2. Priddoedd a'r defnydd o dir

***PG 14 Awst: Rhannu briff â'r grŵp a darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer adborth, ynghyd â rhestr lawn o'r ecosystemau a asesir o dan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Marc Williams).***

***PG 15 Awst: Bydd Nicola Taylor yn mynychu cyfarfod nesaf y fforwm er mwyn trafod opsiynau ymgysylltu'r fforwm(Geri Mills / Nicola Taylor).***

## 10. Rhaglen Gyflenwi Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol *(Sara Jenkins, Menter a Busnes)*

Cadarnhaodd Sara fod yr ymgyrch ffermio cynaliadwy genedlaethol yn parhau a bod chwe digwyddiad pellach wedi'u trefnu ledled Cymru. Bydd y digwyddiadau'n debyg i'r rheiny a gynhaliwyd y llynedd. Bydd angen i ffermwyr fynychu'r digwyddiad er mwyn gwneud cais am y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Cynhaliwyd clinigau seilwaith a glaswelltir a phridd yn llwyddiannus a chaiff y niferoedd terfynol eu rhannu â'r fforwm. Bwriad y clinigau hyn yw darparu rhagarweiniad i'r cyngor sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio.

Mae ffermwyr yn parhau i gael eu hannog i fanteisio ar y gwasanaeth cynghori er mwyn datblygu Cynlluniau Rheoli Maethynnau.

Hyfforddiant – mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau am hyfforddiant yn dechrau eto ym mis Medi.

Nododd y fforwm yr adborth gan y wasg ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn y datganiad i'r wasg gan Cyswllt Ffermio ar gyrff dŵr a dargedir. Nod y datganiad i'r wasg oedd darparu gwybodaeth i ffermwyr ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio'n ymddiheuro am yr agweddau negyddol a roddwyd ar y datganiad i'r wasg gan y BBC.

Digwyddiadau cyrff dŵr wedi'u targedu: cynhaliwyd pedwar digwyddiad hyd yn hyn ac mae wyth yn rhagor i'w trefnu. Bu problemau ynghylch eu rhestr o ffermydd mewn dalgylchoedd eto eleni ac maent yn dibynnu ar undebau ffermwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo'r digwyddiadau a chyhoeddi'r wybodaeth i dirfeddianwyr. Mae rhaglen Ffermio S4C wedi mynegi diddordeb mewn mynychu digwyddiad. Awgrymodd Sarah y dylid ymestyn y gwahoddiad i ddigwyddiad arall a fydd yn cynnwys prosiect y dull gwirfoddol o reoli maethynnau. Cytunodd y fforwm a bydd Sara'n cysylltu â thîm rhaglen Ffermio S4C.

***PG Awst 16: Cyhoeddi nifer terfynol y mynychwyr i'r clinigau seilwaith***

***a glaswelltir a phridd i'r is-grŵp (Sara Jenkins).***

***PG 17 Awst: Cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiadau corff dŵr yn y dyfodol i aelodau'r fforwm i'w cyhoeddi'n ehangach (Sara Jenkins).***

***PG 18 Awst: Gwahodd rhaglen Ffermio S4C i ddigwyddiadau ehangach Fforwm Rheoli Tir Cymru (Sara Jenkins).***

## 11. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd o'r is-grŵp yn y dyfodol

***(Marc Williams / Geri Mills, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

Cadarnhawyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf yn 2019. Awgrymwyd ymweld â Gwastadeddau Gwent yn ystod 2020.

***PG 19 Awst: Datblygu dyddiadau 2020 a'u rhannu â gweddill y grŵp (Geri Mills).***

***PG 20 Awst: Bydd aelodau'r grŵp yn blaenyrru unrhyw awgrymiadau o ran ymweliadau safle yn ystod 2020 at Marc Williams / Geri Mills (holl aelodau'r fforwm).***

## 12. Cofnodion o'r cyfarfod ar 8 Gorffennaf a phwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw *(Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod heb unrhyw ddiwygiadau.

***PG 21 Awst: Lanlwytho cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (Geri Mills).***

Y diweddaraf ar gamau gweithredu cyfarfod mis Gorffennaf:

***PG3 Gorffennaf: Cyflawnwyd***
***PG4 Gorffennaf: Bydd Marc Williams yn mynd ar drywydd hwn ac yn rhoi diweddariad.***
***PG5 Gorffennaf: Cyflawnwyd***
***PG5 Gorffennaf: Cyflawnwyd***
***PG7 Gorffennaf: Cyflawnwyd***
***PG8 Gorffennaf: Bydd aelodau'r fforwm yn adolygu ac yn diweddaru'r holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni (pawb).***
***PG9 Gorffennaf: Bydd Marc Williams yn rhannu dyddiadau gan Nichola Taylor ar gyfer gweithdai ar y Datganiadau Ardal.***

## 13. Y diweddaraf ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur *(pawb)*

Cadarnhaodd Steven Bradley y bydd Dŵr Cymru'n cynnal ei Gynhadledd TarddLe ar 1 Hydref. Mae croeso i aelodau'r fforwm sy'n dymuno mynychu gysylltu â Steven yn uniongyrchol.
***PG 22 Awst: Aelodau'r fforwm sy'n dymuno mynychu'r gynhadledd i***

***gysylltu â Steven Bradley (pawb).***

**14.** **Unrhyw fater arall *(pawb)***

Adolygiad yn 2020 o'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon – cadarnhawyd y bydd y grŵp yn ymwneud â'r adolygiad a ddisgwylir yn 2020.

Cadarnhaodd Steven Bradley y bydd Dŵr Cymru'n lansio ei Gynllun Gwaredu Plaladdwyr ar 13 Awst a bydd yn rhannu mwy o wybodaeth i'w rhaeadru i'r grŵp.

***PG 23 Awst: Bydd mwy o wybodaeth am y cynllun yn cael ei rhannu ag aelodau'r fforwm (Steven Bradley).***

**15.** **Diwedd**